Cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo o 154 i 210 gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol.

# Dogfen Ymgynghori Statudol



Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd eraill heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Mae hefyd ar gael mewn fformat hygyrch fel print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain a CD-sain ar gais. I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall, gallwch anfon e-bost at SustainableCommunitiesForLearning@wrexham.gov.uk neu ysgrifennu at y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer.
Wrecsam LL13 8BG.

# Cynnwys

Cynnwys .......... 2
Cyflwyniad - Esboniad o’r Ymarfer Ymgynghori .......... 3
Y Broses Ymgynghori .......... 4
Y Cynnig .......... 7
Effaith y Cynnig .......... 14
Asesiadau o Effaith .......... 21
Cyllid-Costau a Chyllid .......... 22
Ansawdd a Safonau mewn Addysg .......... 22
Beth sy’n digwydd nesaf? .......... 24

## Cyflwyniad - Esboniad o'r Ymarfer Ymgynghori

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfrifoldeb cyfreithiol i adolygu'r nifer a'r math o ysgolion yn yr ardal i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc Wrecsam yn cael cynnig y cyfleoedd addysg a dysgu maent yn eu haeddu.

Mae rhaglen 'Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu' Llywodraeth Cymru yn rhaglen buddsoddiad cyfalaf strategol sy'n helpu i:

- Drosglwyddo amgylchedd dysgu a phrofiad dysgu;
- Cwrdd â'r galw am leoedd mewn ysgolion;
- Gwella cyflwr ac addasrwydd yr ystâd addysg;
- Datblygu amgylcheddau dysgu cynaliadwy;
- Cefnogi'r gymuned.

### Disgrifiad o'r Cynnig

Mae'r Cyngor yn ceisio barn rhai â diddordeb ynglŷn â'r cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo o 154 i 210 o fis Medi 2025, gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio mewn modd a fydd yn caniatáu ehangu'n hawdd yn y dyfodol os gwireddir yr angen i gynyddu niferoedd i 315.

Mae'r cynnig hwn wedi'i ystyried o dan Adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at 'Addasiadau Rheoledig' sy'n cynnwys:

- "Ehangu eiddo ysgol (ac eithrio meithrinfa ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti ysgol o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion o'i gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol" (PG 21)

### Datblygu Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion

Dylai datblygiad cynigion trefniadaeth yr ysgol ystyried polisïau ac egwyddorion cenedlaethol trosfwaol, gan gynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2011)
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.
- Safonau'r Gymraeg (2016)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)
- Cymru'n Un: Un Blaned: cynllun datblygu cynaliadwy newydd Cymru (2009)
- Cynllun Gweithredu Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2015) a Threchu Tlodi
- Ffydd mewn Addysg (2011)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn ogystal, wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth yr ysgol, dylid rhoi sylw i gynlluniau lleol, gan gynnwys:

- Cynllun y Cyngor
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024
- Strategaeth Gyfranogi 2022-2027
- Cynlluniau Lleol ar gyfer Datblygiad Economaidd neu Dai
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022)
- Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Wrecsam i Ysgolion
- Polisi Cludiant Cyngor Wrecsam

Dylid rhoi sylw hefyd i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar faterion perthnasol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion fel:

- Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Cod Trefniadaeth Ysgolion Ail Rifyn (2018)
- Cod Derbyn i Ysgolion (2013)
- Trefniadau Teithio Dysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol (2014)
- Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (2011)
- Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy: Canllawiau Partneriaid Darparu Pontio ar gyfer Rhaglen Dreigl Buddsoddi Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (2023)

Mae'r ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth gan gyrff perthnasol wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion fel a ganlyn:

- Ansawdd a Safonau mewn Addysg
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
- Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill
- Effaith ar blant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd
- Unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodwyd gan asesiad o effaith ar gydraddoldeb
- Pa un a yw’r ysgol a effeithir yn destun unrhyw ddiddordebau elusennol neu ymddiriedolaeth

## Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi’r wybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018.

Gwnaed fersiwn atodol o’r ddogfen ymgynghorol hon ar gael i ddisgyblion yng nghyngor yr ysgol yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair i’w galluogi nhw a barn holl ddisgyblion ar faterion sy’n effeithio’n uniongyrchol ar eu hysgol. Mae’r fersiwn atodol wedi ei hysgrifennu’n benodol i alluogi plant i ddeall yn well ac ymgysylltu gyda’r ymgynghoriad ffurfiol. Bydd sesiwn dan arweiniad plentyn gyda chyngor yr ysgol yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori a bydd barn y disgyblion yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth gyhoeddi’r adroddiad ôl-ymgynghori.

### Rhestr o'r rhai a ymgynghorwyd â nhw

Gofynnir i ystod o unigolion am eu barn am y cynnig gan gynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Bwrdd Gweithredol)
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig
- Awdurdodau Lleol Eraill: Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint
- Corff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Corff Llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith arnynt.
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Aelodau o staff Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Cynulliad
- Aelodau Seneddol Lleol
- Estyn a GwE
- Undebau Llafur yn cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Adran Drafnidiaeth Ysgolion Cyngor Wrecsam
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Cyngor Cymuned Brymbo
- Partneriaethau Lleol Cymunedau yn Gyntaf
- Darparwyr Meithrinfa Annibynnol Lleol a Darparwyr Dechrau'n Deg
- Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Y Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

*Sylwer: Nid yw'r rhestr hon yn derfynol ac mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.*

### Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar 23 Hydref 2023 ac yn dod i ben ar 4 Rhagfyr 2023.

I ofyn am gopi caled o'r ddogfen ymgynghori gallwch anfon e-bost at StMarysBrymboConsultation@wrexham.gov.uk

### Ystyried eich Safbwyntiau

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch gyfathrebu gyda ni gan gynnwys:

- E-bostio eich sylwadau at StMarysBrymboConsultation@wrexham.gov.uk
- Lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad - mae fersiwn ar-lein ar gael yma: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Y Santes Fair, Brymbo (yourvoicewrexham.com)

Neu gallwch gyflwyno eich barn yn ysgrifenedig i: Ymgynghoriad Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo, Addysg, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam LL13 8BG.

Gallwch hefyd alw i'n gweld yn y sesiynau galw heibio a fydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol ac yn y gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y sesiynau hyn byddwch yn gallu siarad â swyddogion o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau. Sylwch y gall yr amserlen isod newid a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

Amserlen Sesiynau Galw Heibio

| Natur y Sesiwn | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio (Hanner Tymor)* | Dydd Mawrth 31 Hydref 2023 | 2:00pm-4:00pm | Canolfan Fenter Brymbo |
| Sesiwn Galwch Heibio (Bore) | Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023 | 8:45am-9:30am | Ysgol y Santes Fair, Brymbo |
| Sesiwn Galw Heibio (Prynhawn) | Dydd Gwener, 10 Tachwedd 2023 | 2:30pm-3:30pm | Ysgol y Santes Fair, Brymbo |
| Sesiwn Galw Heibio (Min nos) | Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2023 | 3:15pm-6:00pm | Ysgol y Santes Fair, Brymbo |
| Sesiwn Galw Heibio (Min nos) | Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023 | 3:15pm-6:00pm | Ysgol y Santes Fair, Brymbo |
| Sesiwn Galw Heibio (Prynhawn) | Dydd Iau, 23 Tachwedd 2023 | 2:30pm–3:30pm | Ysgol y Santes Fair, Brymbo |
| Sesiwn Galwch Heibio (Bore) | Dydd Gwener, 24 Tachwedd 2023 | 8:45am-9:30am | Ysgol y Santes Fair, Brymbo |
| Sesiwn Rhithiol (Bore)** | Dydd Llun 6 Tachwedd 2023 | Hanner dydd | Dolen ar-lein yn cael ei hanfon ar e-bost |
| Sesiwn Rhithiol (Min nos)** | Dydd Llun 6 Tachwedd 2023 | 7pm | Dolen ar-lein yn cael ei hanfon ar e-bost |

**Sylwer y bydd y sesiwn galw heibio yn ystod hanner tymor yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Fenter Brymbo, Ffordd Blast, Brymbo, Wrecsam LL11 5BT ac nid yn yr ysgol.*
***I gael mynediad i'r sesiwn rhithiol gallwch anfon e-bost:*
StMarysBrymboConsultation@wrexham.gov.uk

Oherwydd y nifer uchel o ymatebion sydd yn dod i law wrth ymgynghori ar opsiynau, ni fyddwn yn gallu cydnabod ymatebion ysgrifenedig na chyfathrebu â phartïon â diddordeb yn ystod neu ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Bydd eich sylwadau ar gael i Aelodau Etholedig at ddibenion gwneud penderfyniad a hefyd ymatebir iddynt drwy gyhoeddi adroddiad ar ôl yr ymgynghoriad.

Rydym yn cynghori na fydd unrhyw sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar y cam hwn.

Amserlen Dyddiadau Allweddol

Sylwch y gall yr amserlen isod newid a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

| Digwyddiad | Dyddiadau |
|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori<br>Yn ystod yr amser hwn gallwch wneud eich safbwyntiau yn hysbys drwy:<br>• Fynychu'r sesiynau galw heibio (bydd nodiadau yn cael eu cymryd)<br>• Ysgrifennu neu anfon e-bost at y cyngor<br>• Llenwi'r ffurflen ymateb sydd ar ddiwedd y llyfryn hwn | 23 Hydref 2023 - 4 Rhagfyr 2023 |
| Adroddiad Ymgynghori wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol | 9 Ebrill 2024 |
| Rhybudd Statudol wedi'i Gyhoeddi a Chyfnod Gwrthwynebiad Ffurfiol yn Dechrau | 29 Ebrill 2024 |
| Cyfnod Gwrthwynebiad Ffurfiol yn Dod i Ben | 7 Mehefin 2024 |
| Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y cynnig | Medi 2024 |
| Hysbysiad Penderfyniad yn cael ei gyflwyno i Ymgyngoreion | Medi 2024 |
| Gweithredu'r Cynnig i gynyddu capasiti disgyblion | 31 Awst 2025 |

**gall yr amserlenni ymgynghori newid, os felly, byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau*

## Y Cynnig

Barn y Cyngor yw bod yr ysgol bresennol yn anaddas, o ran y posibilrwydd o'i hymestyn ac o ran cynnig y cyfleusterau gofynnol i ddarparu'r cwricwlwm modern yn llwyddiannus. Oherwydd y datblygiad tai mawr arfaethedig ym Mrymbo, ystyrir hefyd nad yw'r safle presennol yn addas i fodloni'r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd yn yr ysgol.

Mae'r cynnig hwn yn gobeithio mynd i'r afael â'r uchod drwy:

- Cynyddu capasiti disgyblion o 154 i 210 o fis Medi 2025, gyda'r posibilrwydd o gynyddu eto i 315 os oes angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol. Byddai'r ysgol newydd yn cael ei dylunio mewn ffordd fydd yn caniatáu ei hymestyn yn hawdd os bydd angen cynyddu'r niferoedd i 315.

- Adeiladu ysgol newydd ar safle newydd o fewn milltir ar gyfer y cynnydd mewn capasiti a darparu amgylchedd dysgu modern, ymarferol.

Manylion yr Ysgolion yr Effeithir arnynt

| | |
|---|---|
| Enw'r Ysgol | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo |
| Lleoliad yr ysgol | Bryn Coch, Ael-y-Bryn, Brymbo, Wrecsam LL11 5DA |
| Ystod Oedran | 3-11 |
| Categori Ysgol | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru |
| Cyfrwng Iaith | Cyfrwng Saesneg |
| Capasiti | 154 |
| Lleoedd gwag (Ionawr 2023) | 41 |
| Categori Cyflwr Adeilad | B (Aseswyd Rhagfyr 2022) |
| Addasrwydd Graddfa'r Adeilad | D (Aseswyd Rhagfyr 2022) |

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2018/2019 (Ionawr) | 109 | 45 |
| 2019/2020 (Ionawr) | 108 | 46 |
| 2020/2021 (Ionawr) | 94 | 60 |
| 2021/2022 (Ionawr) | 102 | 52 |
| 2022/2023 (Ionawr) | 113 | 41 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion* | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2023/2024 (Ionawr) | 108 | 46 |
| 2024/2025 (Ionawr) | 97 | 57 |
| 2025/2026 (Ionawr) | 98 | 56 |
| 2026/2027 (Ionawr) | 95 | 59 |
| 2027/2028 (Ionawr) | 97 | 57 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

Disgwylir i'r datblygiad tai arfaethedig o 300 annedd gynnwys oddeutu 61 o ddisgyblion oed cynradd. Mae'r ffigwr hwn wedi'i gynhyrchu yn defnyddio'r fformiwla a amlinellwyd yn CCLl Cyngor Wrecsam Rhif 27. Os byddai'r nifer o anheddau ar y datblygiad yn cynyddu o 300 i 450 (yn amodol ar ganiatâd cynllunio yn cael ei ganiatau), byddai'r nifer o ddisgyblion oed cynradd yn cynyddu o 61 i 80. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon a data amcanestyniad

disgyblion, bydd angen capasiti ychwanegol er mwyn sicrhau lle i ddisgyblion o’r datblygiad tai newydd.

### Rhesymeg ar gyfer Newid

Mae’r Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair bresennol yn ysgol uwchradd a drawsnewidiwyd ac sy’n dyddio’n ôl i’r 1940au. Mae ym mhentref gwledig, bryniog Brymbo ar gyrion Dinas Wrecsam. Y rhesymeg y tu ôl i’r prosiect hwn, yn ogystal â chynyddu capasiti, yw i greu amgylchedd dysgu gwell, o ansawdd uchel ar safle mwy i helpu i fodloni’r galw a ragwelir am leoedd mewn ysgol yn yr ardal yn y dyfodol pan fydd y datblygiad tai arfaethedig wedi’i gwblhau.

Mae dewis y safle ysgol newydd yn caniatau i’r Cyngor a’r Esgobaeth ddylunio ysgol gyda hyblygrwydd defnydd lle mewn golwg yn ogystal â datblygu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol i alluogi newid gofod. Byddai hefyd yn lleihau’r angen i ddefnyddio llety dros dro wrth i’r galw gynyddu ac osgoi gorlenwi posibl mewn safleoedd eraill.

Bydd yr adeilad newydd yn cael ei ddylunio gyda mewnbwn gan yr ysgol a’r Esgobaeth i sicrhau ei fod yn parhau o fewn ethos yr ysgol ac yn cefnogi gweledigaeth yr ysgol ar gyfer darparu’r cwricwlwm modern.

Os byddai’r sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal, mae’n debyg na fyddai’r ysgol yn gallu darparu ar gyfer y galw rhagweledig am leoedd mewn ysgolion yn y dyfodol yn ardal Brymbo.

### Digonolrwydd Adeiladau Ysgol Presennol

Dros y blynyddoedd, bu amrywiol addasiadau a newidiadau i’r safle presennol sydd wedi galluogi’r ysgol i weithredu’n ddigonol. Fodd bynnag, nid yw’r adeilad presennol bellach yn cynnig llety addas ar gyfer darparu’r cwricwlwm newydd i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2020.

Fe ystyriwyd ymestyn safle’r ysgol bresennol fel dewis amgen i’r cynnig hwn. Serch hynny, mae adeilad presennol yr ysgol wedi’i roi yng Nghategori B ac wedi’i ystyried yn anaddas ar gyfer estyniad oherwydd bod y safle ar dir caeedig. Mae wedi’i leoli ar allt serth ar hyn o bryd gyda lle parcio cyfyngedig, mynediad gwael i gerbydau a dim llawer o le chwarae y tu allan. Mae’r ysgol yn defnyddio cae chwarae a leolir 1 cilomedr i ffwrdd o’r adeilad gyda’r disgyblion yn gorfod croesi ffordd brysur i gael mynediad. Mae’r cae yn tueddu i ddioddef llifogydd sydd weithiau yn golygu nad yw’r lle yn addas ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Gyda’r cynnig o dai newydd yn yr ardal, mae’r llety presennol yn anaddas i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd a’r galw a ragwelir am leoedd ysgol ym mhentref Brymbo a’r ardal gyfagos yn y dyfodol.

### Mesurau Dros Dro

Yn y prosiect hwn, ni fyddai angen mesurau dros dro oherwydd byddai ysgol newydd yn cael ei datblygu ar safle newydd. Ni fydd angen dosbarthu i leoliadau eraill a dylai hyn liniaru unrhyw darfu posibl ar y disgyblion, athrawon a rhieni.

## Cynaliadwyedd / Cefnogi'r Gymuned

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio a'i hadeiladu i safonau rhagoriaeth BREEAM. Bydd yr ysgol yn cynnwys nodweddion arloesol, carbon isel ac effeithlon o ran ynni er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru i weithredu'n ddi-garbon.

Gweledigaeth y Cyngor a'r Esgobaeth yw darparu ysgol sydd â chysylltiad clir â'r byd naturiol fel y gall dysgwyr o bob oed ddarganfod a dadorchuddio atebion i'r materion a wynebwn ar allyriadau carbon, newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Y nod yw y bydd y dyluniad yn cynnwys cynefinoedd priodol i'n rhywogaethau naturiol a dod â'r amgylchedd naturiol i'r man dysgu drwy gyflwyno nodweddion sy'n ymwneud â charu natur e.e. waliau byw. Rhagwelir hefyd y bydd y dyluniad modern ac arloesol yn caniatáu i gymuned ehangach Brymbo ddefnyddio lleoliad ecogyfeillgar ac effeithlon o ran ynni y tu allan i oriau ysgol.

## Cyflenwad a'r Galw am Leoedd mewn Ysgolion Ffydd

Pan fydd y Cyngor yn adolygu'r mathau o ysgolion sydd ar gael yn yr ardal, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod yna ledaeniad daearyddol priodol o ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a darpariaeth Ffydd. Mae hyn yn anelu i sicrhau bod gan rieni ddewis gwirioneddol o ran addysg i'w plant. Bydd lledaeniad daearyddol gwell o ysgolion darpariaeth Ffydd yn effeithio'n gadarnhaol ar gostau cysylltiedig â chludiant presennol. Mae hefyd yn gwneud teithio cynaliadwy a llesol i gael mynediad i ysgolion darpariaeth Ffydd yn fwy hyfyw sy'n helpu i leihau allyriadau carbon cysylltiedig â chludiant.

## Meintiau Grwpiau Blwyddyn Arfaethedig

Cynigir ein bod yn rheoli twf yr ysgol yn ofalus i sicrhau cynaliadwyedd ac osgoi lleoedd gwag ychwanegol yn y grwpiau blwyddyn uwch. Er mwyn i'r ysgol reoli'r twf, awgrymir bod y nifer derbyn yn cynyddu'n flynyddol o fis Medi 2025.
Bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam gan ddechrau ym mis Medi 2025 fel a ganlyn:

Cam 1 – Ar 1 Medi 2025 bydd yr ysgol yn cynyddu'r nifer a gaiff eu derbyn o 22 i 30/45 o ddisgyblion ar gyfer y dosbarth Meithrin ac o 22 i 30/45 o ddisgyblion ar gyfer y dosbarth Derbyn ar gyfer mynediad pob blwyddyn. Bydd yr holl grwpiau blwyddyn presennol yn parhau yn 22.

Cam 2 – Ar 1 Medi 2026 bydd hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn. Bydd y disgyblion presennol yn y dosbarth derbyn yn symud ymlaen i Flwyddyn 1.

Cam 3 – Ar 1 Medi 2027 bydd hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1 a 2.

Cam 4 – Ar 1 Medi 2028 bydd hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1, 2 a 3.

Cam 5 – Ar 1 Medi 2029 bydd hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1, 2, 3 a 4.

Cam 6 – Ar 1 Medi 2030 bydd hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1, 2, 3, 4 a 5.

Cam 7 – Ar 1 Medi 2031 bydd hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30/45 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 a 6.

Bydd gan yr ysgol ar ei ffurf newydd le i 210/315 o ddisgyblion a lle i 30/45 o blant meithrin rhan amser.

Mae hyn yn golygu y byddai'r cynnydd mewn capasiti yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo wedi'i gwblhau'n llawn erbyn Medi 2031 fel y dangosir yn y tablau isod.

| 2024/25 (Ionawr) Mynediad 2025 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Oedran** | **(Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315)** | **Nifer Derbyn (315)** | **(Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210)** | **Nifer Derbyn (210)** |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 16* | 22 | 16* | 22 |
| 2 | 6-7 | 15* | 22 | 15* | 22 |
| 3 | 7-8 | 19* | 22 | 19* | 22 |
| 4 | 8-9 | 13* | 22 | 13* | 22 |
| 5 | 9-10 | 19* | 22 | 19* | 22 |
| 6 | 10-11 | 14* | 22 | 14* | 22 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr.

| 2025/26 (Ionawr) Mynediad 2026 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Oedran** | **(Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315)** | **Nifer Derbyn (315)** | **(Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210)** | **Nifer Derbyn (210)** |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 2 | 6-7 | 16* | 22 | 16* | 22 |
| 3 | 7-8 | 15* | 22 | 15* | 22 |
| 4 | 8-9 | 19* | 22 | 19* | 22 |
| 5 | 9-10 | 13* | 22 | 13* | 22 |
| 6 | 10-11 | 19* | 22 | 19* | 22 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr.

| 2026/27 (Ionawr) Mynediad 2027 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Oedran | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315) | Nifer Derbyn (315) | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210) | Nifer Derbyn (210) |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 2 | 6-7 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 3 | 7-8 | 16* | 22 | 16* | 22 |
| 4 | 8-9 | 15* | 22 | 15* | 22 |
| 5 | 9-10 | 19* | 22 | 19* | 22 |
| 6 | 10-11 | 13* | 22 | 13* | 22 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr.

| 2027/28 (Ionawr) Mynediad 2028 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Oedran | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315) | Nifer Derbyn (315) | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210) | Nifer Derbyn (210) |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 2 | 6-7 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 3 | 7-8 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 4 | 8-9 | 16* | 22 | 16* | 22 |
| 5 | 9-10 | 15* | 22 | 15* | 22 |
| 6 | 10-11 | 19* | 22 | 19* | 22 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr

| 2028/29 (Ionawr) Mynediad 2029 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Oedran | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315) | Nifer Derbyn (315) | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210) | Nifer Derbyn (210) |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 2 | 6-7 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 3 | 7-8 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 4 | 8-9 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 5 | 9-10 | 16* | 22 | 16* | 22 |
| 6 | 10-11 | 15* | 22 | 15* | 22 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr

| 2029/30 (Ionawr) Mynediad 2030 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Oedran | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315) | Nifer Derbyn (315) | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210) | Nifer Derbyn (210) |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 2 | 6-7 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 3 | 7-8 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 4 | 8-9 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 5 | 9-10 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 6 | 10-11 | 16* | 22 | 16* | 22 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr

| 2030/31 (Ionawr) Mynediad 2031 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Oedran | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (315) | Nifer Derbyn (315) | (Cynnig) Disgyblion wedi'u Cofrestru (210) | Nifer Derbyn (210) |
| Meithrin | 3-4 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| Derbyn | 4-5 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 1 | 5-6 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 2 | 6-7 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 3 | 7-8 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 4 | 8-9 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 5 | 9-10 | 45 | 45 | 30 | 30 |
| 6 | 10-11 | 45 | 45 | 30 | 30 |

*Nifer rhagamcanol ar y gofrestr

## Effaith y Cynnig

### Manteision Posibl o Weithredu'r Cynnig

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, disgwylir i’r manteision canlynol gael eu gwireddu:

- Effaith gadarnhaol ar les disgyblion gan y byddant yn dysgu mewn amgylchedd mwy gydag adnoddau modern ar gael; gan arwain at fwy o ymgysylltu gyda disgyblion a mwynhau dysgu oherwydd amgylchedd newydd.
- Llety parhaol newydd i ddisgyblion sy’n addas i’r diben a fydd yn helpu i gwrdd â’r galw yn y twf am leoedd mewn ysgolion yn yr ardal yn y dyfodol.
- Byddai gan ysgolion ffydd gynnydd cyffredinol mewn capasiti a byddai mwy o blant yn gallu mynychu ysgol ffydd yn nes at gyfeiriad eu cartref.
- Dim cyfrifoldeb cludiant ychwanegol i’r ALl gan na fyddai disgyblion angen eu cludo i’r ysgol ffydd agosaf nesaf.
- Yn helpu i leddfu gordanysgrifio mewn ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos.
- Bydd y cynnig yn sicrhau y bydd modd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol o addysg.

**Nid yw’r rhestr uchod yn un gyflawn.*

### Anfanteision Posibl o Weithredu'r Cynnig

- Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, disgwylir i’r anfanteision canlynol godi: Mae safle’r ysgol bresennol yn gyfarwydd i ddisgyblion a gallai symud i adeilad newydd ar safle newydd amharu ar y dysgwyr hynny sy’n gweld newid mewn patrwm arferol yn anodd.
- Mae’n bosibl y bydd rhai disgyblion a rhieni yn gorfod teithio ychydig ymhellach i gael mynediad i safle ysgol newydd nag ar hyn o bryd (e.e. os ydynt yn byw yn agos iawn at y safle presennol).

## Risgiau Posibl a Mesurau Lliniaru

Mae'n bosibl y bydd yna risgiau yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Mae'r risgiau posibl a sut y gellir lliniaru'r rhain os byddant yn codi wedi eu rhestru isod.

- Mae'n bosibl na roddir caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad tai newydd. Gall y risg hwn, er nad yw dan reolaeth uniongyrchol yr Adran Addysg gael ei liniaru gan y broses apêl cynllunio os bydd caniatâd yn cael ei wrthod.
- Mae'r Cyngor yn gweld cynnydd yn achlysurol mewn disgyblion yn cael eu trosglwyddo o ysgolion eraill mewn ardal pan fydd ysgol newydd wedi ei hadeiladu. Os bydd hyn yn digwydd, gall arwain at ysgolion eraill yn yr ardal yn colli disgyblion. Fodd bynnag, mae data blaenorol yn dangos mai risg tymor byr yw hwn yn unig, felly nid oes angen mesurau lliniaru.

## Crynodeb o'r Manteision, Anfanteision a Risgiau

O ystyried y manteision, risgiau ac anfanteision uchod, mae'r Cyngor yn credu bod manteision tymor hir y cynnig, megis cynnydd mewn lleoedd disgyblion mewn ardal o alw cynyddol, yn gorbwyso unrhyw anfanteision neu risgiau. Bydd unrhyw risgiau posibl yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n ofalus ble bo hynny'n bosibl.

## Effaith ar Ysgolion Cyfagos

Rhagwelir wrth gynyddu'r capasiti'n barhaol yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, y bydd hyn yn rhyddhau ysgolion eraill yn yr ardal. Mae tystiolaeth o hyn isod.

| Ysgol Gynradd *(O fewn 2 filltir o bellter cerdded o'r safle arfaethedig)* | Cyfrwng Iaith | Categori Cyflwr Adeilad | Capasiti | Nifer ar y gofrestr (Ion 2023) | Capasiti sy'n weddill |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Ddu | Cyfrwng Saesneg | B | 140 | 130 | 10 |
| Ysgol Tanyfron | Cyfrwng Saesneg | B | 140 | 129 | 11 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Brynteg | Cyfrwng Saesneg | B | 175 | 159 | 16 |
| Ysgol Penrhyn | Cyfrwng Saesneg | B | 210 | 195 | 15 |
| Ysgol Heulfan | Cyfrwng Saesneg | C | 294 | 261 | 33 |
| Ysgol Penygelli | Cyfrwng Saesneg | B | 315 | 258 | 57 |

Fel y dangosir, mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg agosaf at safle'r ysgol wedi'u gordanysgrifio ar hyn o bryd, unwaith y gweithredir argymhelliad capasiti 10% dros ben. Dylid mynd i'r afael â hyn os gweithredir cynnydd mewn capasiti yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair.

### Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Ddu / Black Lane CP School

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2019 2018/2019 (Ionawr) | 138 | 2 |
| 2020 2019/2020(Ionawr) | 128 | 12 |
| 2021 2020/2021(Ionawr) | 129 | 11 |
| 2022 2021/2022(Ionawr) | 132 | 8 |
| 2023 2022/2023(Ionawr) | 130 | 10 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin.  Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2024 2023/2024(Ionawr) | 130 | 10 |
| 2025 2024/2025(Ionawr) | 119 | 21 |
| 2026 2025/2026(Ionawr) | 116 | 24 |
| 2027 2026/2027(Ionawr) | 123 | 17 |
| 2028 2027/2028(Ionawr) | 119 | 21 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin.  Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

Ysgol Tanyfron

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2019 2018/2019(Ionawr) | 130 | 10 |
| 2020 2019/2020(Ionawr) | 132 | 8 |
| 2021 2020/2021(Ionawr) | 127 | 13 |
| 2022 2021/2022(Ionawr) | 130 | 10 |
| 2023 2022/2023(Ionawr) | 129 | 11 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin.  Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2024 2023/2024(Ionawr) | 127 | 13 |
| 2025 2024/2025(Ionawr) | 121 | 19 |
| 2026 2025/2026(Ionawr) | 122 | 18 |
| 2027 2026/2027(Ionawr) | 119 | 21 |
| 2028 2027/2028(Ionawr) | 119 | 21 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin.  Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

Brynteg CP

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2019 2018/2019(Ionawr) | 171 | 4 |
| 2020 2019/2020(Ionawr) | 165 | 10 |
| 2021 2020/2021(Ionawr) | 163 | 12 |
| 2022 2021/2022(Ionawr) | 167 | 8 |
| 2023 2022/2023(Ionawr) | 159 | 16 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2024 2023/2024(Ionawr) | 158 | 17 |
| 2025 2024/2025(Ionawr) | 145 | 30 |
| 2026 2025/2026(Ionawr) | 144 | 31 |
| 2027 2026/2027(Ionawr) | 140 | 35 |
| 2028 2027/2028(Ionawr) | 137 | 38 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

Ysgol Penrhyn

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2019 2018/2019(Ionawr) | 178 | 32 |
| 2020 2019/2020(Ionawr) | 174 | 36 |
| 2021 2020/2021(Ionawr) | 183 | 27 |
| 2022 2021/2022(Ionawr) | 196 | 14 |
| 2023 2022/2023(Ionawr) | 195 | 15 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2024 2023/2024 (Ionawr) | 189 | 21 |
| 2025 2024/2025 (Ionawr) | 181 | 29 |
| 2026 2025/2026 (Ionawr) | 178 | 32 |
| 2027 2026/2027 (Ionawr) | 180 | 30 |
| 2028 2027/2028 (Ionawr) | 176 | 34 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

Ysgol Heulfan

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2019 2018/2019(Ionawr) | 302 | -8 |
| 2020 2019/2020(Ionawr) | 296 | -2 |
| 2021 2020/2021(Ionawr) | 273 | 21 |
| 2022 2021/2022(Ionawr) | 272 | 22 |
| 2023 2022/2023(Ionawr) | 261 | 33 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2024 2023/2024 (Ionawr) | 263 | 31 |
| 2025 2024/2025 (Ionawr) | 258 | 36 |
| 2026 2025/2026 (Ionawr) | 256 | 38 |
| 2027 2026/2027 (Ionawr) | 255 | 39 |
| 2028 2027/2028 (Ionawr) | 257 | 37 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. *Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys*

Pengelli CP

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2019 2018/2019(Ionawr) | 284 | 31 |
| 2020 2019/2020(Ionawr) | 281 | 34 |
| 2021 2020/2021(Ionawr) | 285 | 30 |
| 2022 2021/2022(Ionawr) | 263 | 52 |
| 2023 2022/2023(Ionawr) | 258 | 57 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. *Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys*

| Blwyddyn | Amcanestyniadau Disgyblion | Lleoedd gwag |
|---|---|---|
| 2024 2023/2024 (Ionawr) | 245 | 70 |
| 2025 2024/2025 (Ionawr) | 224 | 91 |
| 2026 2025/2026 (Ionawr) | 220 | 95 |
| 2027 2026/2027 (Ionawr) | 211 | 104 |
| 2028 2027/2028 (Ionawr) | 199 | 116 |

*Sylwch nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell – Plasc. *Ni ddylai niferoedd disgyblion a niferoedd disgyblion mewn unedau AAA gael eu cynnwys*

**Effaith ar Ddarpariaeth Ffydd**

Yr ysgol darpariaeth ffydd agosaf nesaf at Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, yw Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Y Mwynglawdd.

| Ysgol Gynradd | Cyfrwng Iaith | Categori Cyflwr Adeilad | Capasiti | Nifer ar y gofrestr (Ion 2023) | Capasiti sy'n weddill* |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Y Mwynglawdd | Cyfrwng Saesneg | B | 119 | 86 | 33 |

Mae adolygiad o leoliad cartref disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Y Mwynglawdd yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion sy'n byw ger Ysgol Gynradd Y Mwynglawdd yn mynychu Ysgol Gynradd Y Mwynglawdd. Mae adolygiad o leoliad cartref disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Y Santes Fair ym Mrymbo yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion sy'n byw ger Ysgol Gynradd Y Santes Fair ym Mrymbo yn mynychu Ysgol Gynradd Y Santes Fair ym Mrymbo.

Yn gyffredinol, credir y bydd yna effaith cadarnhaol ar y ddarpariaeth ffydd a ddarperir yn Wrecsam gan y bydd yna fwy o leoedd ar gael mewn Ysgol Gwirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru.

**Effaith ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

Nid yw'r cynnig yn ehangu nac yn effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan fod yr ysgol yr effeithir arni yn ysgol darpariaeth ffydd cyfrwng Saesneg.

**Effaith ar Ddarpariaeth Meithrin**

Byddai darpariaeth feithrin yn cael ei chynyddu yn unol â'r niferoedd derbyn newydd a gyhoeddir ar gyfer Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair. Mae hyn yn galluogi mwy o blant i gael eu haddysgu mewn darpariaeth meithrin ffydd.

Byddai'r cynnig hwn yn golygu cynnydd i (210) 30 rhan amser (315) 45 rhan amser o leoedd meithrin ar gael bob blwyddyn.

| Enw'r Ysgol | Lleoedd Meithrin sydd ar gael ar hyn o bryd | Lleoedd meithrin ar gael ar ôl y cynnig |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Hollsaint, Gresffordd | 45 | 45 |
| Ysgol Gynradd a Gynorthwyir yn Wirfoddol Bronington | 17 | 17 |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Madras | 17 | 17 |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Y Mwynglawdd | 17 | 17 |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Chad | 13 | 13 |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo | 22 | 30/45 |
| Ysgol y Santes Fair, Owrtyn | 30 | 30 |
| Ysgol y Santes Fair, Rhiwabon | 24 | 24 |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul | 7 | 7 |

### Effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ychydig iawn o newid neu ddim newid o gwbl fydd yna ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r uned darparu adnoddau presennol a leolir o fewn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo yn parhau a darperir ar ei gyfer pan fyddai'r ysgol newydd yn cael ei dylunio a'i hadeiladu. Unwaith y bydd yr ysgol newydd wedi'i hadeiladu, rhagwelir y bydd y cyfleusterau gwell yn gwella dysgu ac addysgu i holl ddysgwyr yn uniongyrchol, gan gynnwys y sawl sy'n cael mynediad i'r uned darparu adnoddau.

### Effaith ar Ddisgyblion gyda Saesneg Fel Iaith Ychwanegol

Ychydig iawn o newid neu ddim newid o gwbl fydd yna ar ddisgyblion gyda Saesneg fel ychwanegol. Byddai'r adnoddau presennol a drefnir i ysgolion mewn ffurf tîm cefnogi Saesneg fel iaith ychwanegol yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion cymwys yn yr ysgol bresennol a'r ysgol newydd ar ôl ei chwblhau.

### Effaith ar dderbyniadau

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo yn awdurdod derbyn eu hunain, a bydd ceisiadau ar gyfer derbyn yn parhau i gael eu hasesu yn unol â pholisi derbyn yr ysgol.

Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y polisi, a bydd derbyniadau yn cael eu gwneud yn unol â dewis y rhieni, yn amodol ar argaeledd. Os yw ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, bydd dewis rhieni yn dal yn ystyriaeth ond bydd meini prawf yr ysgol yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu.

Mae Polisi Derbyn a Meini Prawf Gordanysgrifio yr Ysgol ar gael yn: [Polisïau Derbyn Ysgolion Sylfaen/a Gynorthwyir yn Wirfoddol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam]

Mae Polisi Derbyn a Meini Prawf Gordanysgrifio y Cyngor ar gael yn: [Derbyniadau Ysgol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam]

### Effaith ar Gludiant Ysgol

Yn unol â pholisi cludiant ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i bob disgybl oed ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir neu fwy o'u hysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg neu ysgol ffydd agosaf. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn a bydd llwybrau cerdded newydd yn cael eu mapio ar ôl cwblhau'r ysgol newydd.

Mae'r cynnig yn golygu y byddai mwy o blant yn cael y cyfle i gael lle mewn ysgol ffydd yn agosach at eu cyfeiriad cartref, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gludiant.

### Effaith ar Staff a Staffio

Ni ddylai'r cynnig hwn gael unrhyw effaith uniongyrchol ar athrawon na staff cefnogi.

Y bwriad yw rheoli twf yr ysgol drwy dderbyn (210) 30 neu (315) 45 i'r Dosbarth Meithrin a'r Dosbarth Derbyn bob blwyddyn. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r ysgol recriwtio ac adolygu sut maent yn darparu strwythur eu dosbarthiadau.

Bydd barn y staff yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

## Asesiadau o Effaith

Cafodd yr Asesiadau o Effaith canlynol eu cynnal i ddechrau ym mis Mehefin 2023 ac mae'r crynodebau isod wedi eu cyflawni Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gwaith a gellir eu diweddaru drwy gydol y broses statudol.   Bydd adborth a dderbyniwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiadau o effaith.

### Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

I ddechrau, canfuwyd y byddai yna effaith gadarnhaol am y rhesymau a amlinellwyd yma.

### Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

I ddechrau, canfuwyd y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned gan y byddai ysgol newydd yn helpu i gwrdd â'r galw a ragwelir yn y dyfodol ar gyfer lleoedd ysgol yn yr ardal.   Byddai'r gymuned hefyd yn cael budd o ofod newydd, eco-gyfeillgar a modern y gellir ei ddefnyddio ar gyfer amrywiol weithgareddau yn y gymuned ac arweinir gan y gymuned.

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

I ddechrau, gwelwyd na fyddai yna effaith negyddol na chadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig.

### Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

I ddechrau, canfuwyd bod y cynnig i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn ymarferol, a bydd unrhyw draffig ysgol ychwanegol a achosir gan y cynnydd mewn capasiti yn cael ei liniaru drwy ddarparu cyfleusterau parcio gwell ar y safle newydd. Bydd yr asesiad o effaith ar gludiant ar gyfer y safle presennol yn gadarnhaol gan y bydd gostyngiad mewn traffig pan fydd yr ysgol yn adleoli i'r safle newydd. Bydd y safle newydd ar

isadeiledd ffyrdd newydd, a bydd cyfleusterau parcio ceir yn cael eu hystyried yn ystod datblygiad y safle.

### Asesiad o'r Effaith ar Les a Chenedlaethau'r Dyfodol

I ddechrau, canfuwyd y byddai yna effaith gadarnhaol ar les cenedlaethau'r dyfodol am y rhesymau a amlinellwyd yn hwn.

## Cyllid-Costau a Chyllid

Y gyllideb ddirprwyedig refeniw ar gyfer 2023-24 i Ysgol y Santes Fair yw £730,163. Heb gynnwys y Ddarpariaeth ag Adnoddau (ble byddai cost uned disgybl yn uwch na'r gyfartaledd oherwydd cyfraddau staff i ddisgybl), mae'r gyllideb yn £585,944. Mae hyn yn cyfrif fel cyfartaledd cost fesul disgybl yn £4,803 fel y gwerth a ariannwyd drwy fformiwla cyllid Wrecsam i Ysgolion Cynradd.

Gan gymryd bod pob lle wedi'i lenwi, byddai cynnydd mewn capasiti yn cynhyrchu cyllideb ychydig dros £773,000 dros amser. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys chwyddiant, y disgwylir iddo gael ei gynnwys fel arfer mewn cyllidebau ysgolion, er y byddai hyn yn dibynnu ar bwysau cyllideb gyffredinol i'r awdurdod yn y dyfodol.

Mae fformiwla cyllid Wrecsam yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr ar ffurflen cyfrifiad disgyblion mis Ionawr pob ysgol, cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Os byddai unrhyw un o'r disgyblion ychwanegol ar gyfer yr ysgol newydd yn Brymbo yn trosglwyddo o ysgolion cynradd eraill yn Wrecsam, byddai'r cyllid ar gyfer y disgyblion hynny eisoes yn y system. Ni fyddai'r ysgol ble'r oedd disgyblion yn cael eu haddysgu'n flaenorol yn parhau i dderbyn y cyllid iddynt felly byddai'r cyllid yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.

Byddai unrhyw gynnydd gofynnol yn y gyllideb yn cael ei ariannu'n raddol bob blwyddyn o gyllideb ychwanegol a ddyrannwyd i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr awdurdod i'r ysgol o bwysau ychwanegol sy'n codi drwy gynnydd yn y boblogaeth. Byddem yn disgwyl arbedion effeithlonrwydd ynni sylweddol ar gyfer ysgolion o ganlyniad i ostyngiad mewn ynni a charbon.

### Cyllidebau prosiect

Bydd yn prosiect yn cael ei ddarparu ar sail yr arian cyfatebol canlynol sydd wedi cael ei sicrhau.

- 15% gan Ymddiriedolaeth Blwyfol
- 85% gan Lywodraeth drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gydag Estyn a GwE er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chefnogi gwelliant ysgol i blant a phobl ifanc Wrecsam.

### Estyn

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y goron sydd wedi'i sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol o'r Senedd ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru

1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darpariaeth mewn ysgolion a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru.

Wrth gynnig newidiadau o'r math hwn i ysgolion, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfeirio at yr adroddiad Estyn diweddaraf a thystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd ddangos effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- Safonau/Dysgu
- Lles ac agweddau at ddysgu
- Profiadau Addysgu a Dysgu
- Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad
- Arweinyddiaeth a Rheoli

Mae ysgolion yn cael eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Yn dilyn arolwg, mae Estyn yn cyhoeddi adroddiad ac yn darparu argymhellion ar gyfer gwella i ysgolion.

Roedd yr arolwg diwethaf a gynhaliwyd gan Estyn yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo yn 2018. Mae dyfarniadau arolwg a ddyrannwyd i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo yn dilyn arolwg wedi eu dangos yn y tabl isod:

| Maes Arolygu | Dyfarniad yr Arolwg |
|---|---|
| Safonau/Dysgu | Digonol ac angen ei wella |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Digonol ac angen ei wella |
| Profiadau Addysgu a Dysgu | Digonol ac angen ei wella |
| Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad | Digonol ac angen ei wella |
| Arweinyddiaeth a Rheoli | Digonol ac angen ei wella |

Yn dilyn yr arolwg ym mis Hydref 2018, roedd Estyn wedi gwerthuso cynnydd yr ysgol yn ystod ymweliad monitro ym mis Mawrth 2020. Yn dilyn yr ymweliad hwn, dyfarnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r argymhellion a roddwyd ac felly tynnwyd o'r rhestr o ysgolion oedd angen eu monitro gan Estyn.

I gael mwy o wybodaeth am yr arolwg ac ymweliad monitro, dilynwch y ddolen isod i wefan Estyn. Mae dolenni hefyd wedi eu darparu ar gyfer adroddiadau arolwg ysgolion ffydd eraill yn ardal Wrecsam.

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Hollsaint, Gresffordd

Ysgol Gynradd a Gynorthwyir yn Wirfoddol Bronington

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Madras

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Y Mwynglawdd

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Chad

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo

[Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn]

[Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwabon]

[Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul]

### Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, barn y Cyngor yw y byddai'r ysgol newydd yn parhau i wella safon ac ansawdd addysg o fewn yr ardal. Mae'r adolygiad wedi mynd ati i fynd i'r afael â heriau o fewn yr ardal sydd â'r potensial o effeithio ar gynaladwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn yn ceisio adeiladu ar y safon presennol gyda'r bwriad i gryfhau a gwella darpariaeth addysgol gan arwain at fwy o ymgysylltiad a mwynhad disgyblion yn dysgu ac effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Yr Adroddiad Ymgynghori

O fewn 13 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion (ac ym mhob achos cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori a fydd yn:

- Rhoi crynodeb o bob un o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd â nhw
- Ymateb i'r rhain trwy eglurhad, welliant i'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau i gefnogi.
- Manylu haeddiant cyffredinol y cynnig a amlygwyd gan Estyn yn eu hymateb.

Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Corff Llywodraethu ynghylch sut i symud ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, i roi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y cynigion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ymgynghori a'i fod yn cael ei wneud yn hygyrch iddynt.

Bydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn electronig ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn mynd drwy holl wiriadau hygyrchedd er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb a ymgynghorwyd â nhw. Yn ogystal, bydd y rhybudd yn cael ei arddangos yn y fynedfa i'r ysgol. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais.

### Cyhoeddi Rhybuddion Statudol

Mae hyn yn amodol ar gymeradwyaeth Adroddiad ôl Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ar 9 Ebrill 2024. **Sylwer y gall y dyddiad hwn newid o bosibl.**

Os bydd yr argymhelliad yn cael ei dderbyn yna bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau ar 29 Ebrill 2024. Os bydd unrhyw wrthwynebiadau'n cael eu mynegi yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddir adroddiad a bydd ar gael ar wefan y Cyngor. Rhybudd statudol yw cyhoeddi cynnig terfynol yn ffurfiol. Gwneir hyn dim ond os bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen â'r cynnig, yn dilyn ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Gofynnwn yn garedig i ymgyngoreion ysgrifennu yn ystod y cyfnod gwrthwynebu yn unig os oes ganddynt wrthwynebiad swyddogol i'r rhybudd statudol. **Bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau cadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn gael eu trin fel gwrthwynebiadau hyd yn oed os ydynt o blaid y cynnig.**

Mae ymgyngoreion yn gallu cyflwyno eu gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol drwy e-bost StMarysBrymboConsultation@wrexham.gov.uk neu yn ysgrifenedig i Ymgynghoriad Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam LL13 8BG.

### Penderfynu ar y Cynigion

Bydd canlyniadau'r rhybudd statudol o flaen y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi 2024 a gwneir penderfyniad pa un a ddylai cynnig gael ei weithredu. Nodwch efallai y gall y dyddiad uchod newid.

### Hysbysiad o'r Penderfyniad

Yn ddibynnol ar fynd ymlaen ag unrhyw gynnig fe fydd hysbysiad ynglŷn â phenderfyniad ar gael i'r holl ymgyngoreion. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.